# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 22AIN EBRILL, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**
**NatalieLloydJones@Gwynedd.Llyw.Cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 14 Ebrill 2021)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Linda Morgan
Simon Glyn
Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Berwyn Parry Jones
Aled Wyn Jones
Gethin Glyn Williams
Dafydd Owen

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Kevin Morris Jones
Elwyn Jones
Angela Russell
Mike Stevens
Elfed Powell Roberts

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Owain Williams

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Chwefror, 2021 fel rhai cywir.

## 5. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - CYNNYDD AR WIREDDU'R CYNLLUN LLESIANT 9 - 15

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

I ystyried yr adroddiad.

## 6. TREFNIADAU TÂN GWYLLT 16 - 27

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth W Griffith**

I ystyried yr adroddiad.

## 7. GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD 28 - 32

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth W Griffith**

I ystyried yr adroddiad.

# Pwyllgor Craffu Cymunedau
# 25 Chwefror 2021

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Annwen Hughes, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Elfed Roberts, Angela Russell, Mike Stevens ac Owain Williams

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Lowri Haf Evans a Natalie Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:**

Yn bresennol ar gyfer eitem 5:
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth yr Adran Amgylchedd), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad).

Yn bresennol ar gyfer eitem 6:
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth yr Adran Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Heledd Jones (Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth yr Adran Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd).

Estynnwyd cydymdeimladau dwys â theulu Gwenan Parry, cyn pennaeth gofal cwsmer y Cyngor.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Kevin Morris Jones, Linda Morgan, Aled Wyn Jones a Gethin Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Bu i'r Cynghorwyr Berwyn Parry Jones ac Owain Williams ddatgan buddiant ar Eitem 6, gan nodi eu bod yn aelodau o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 10fed o Ragfyr 2020, fel rhai cywir.

## 5. RHAGLEN WAITH CYNLLUN GWEITHREDU HAWLIAU TRAMWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cefn Gwlad ac amlinellwyd y gwaith sydd wedi bod ar y gweill. Ategodd mai nod y cynllun yw sicrhau bod mynediad hygyrch a diogel i bobl ddefnyddio llwybrau yn y cefn gwlad, mannau gwyrdd ac yr arfordir. Gofynnwyd am farn y pwyllgor craffu ar gynnwys yr adolygiad diweddaraf.

Rhoddwyd trosolwg o’r tri phrif bennawd sydd wedi ei hymgorffori yn y cynllun;

1) Cynnal a rheoli rhwydwaith - nodwyd bod angen cyfarch mathau gwahanol o ddefnyddwyr, fodd bynnag rhoddir blaenoriaeth i lwybrau sydd mewn categorïau 1 a 2.

2) Y map a datganiad swyddogol - Eglurwyd y gellir cyfeirio yn ôl at hyn os bydd achos neu anghydfod ynghylch statws neu fodolaeth llwybr.

3) Asesu a chwrdd ag anghenion defnyddwyr - Nodwyd bod mwy o alw am lwybrau aml-ddefnydd wedi bod yn ystod y cyfnod clo gyda mwy yn aros yn lleol. Eglurwyd bod y lonydd las yn caniatáu'r math yma o ddefnydd i raddau.

Eglurwyd bod gwahaniaeth o gymharu â’r cynllun blaenorol yn nodedig yw’r absenoldeb o raglenni gwaith manwl. Yn eu lle, nodwyd bod rhaglenni gwaith blynyddol neu bob dwy flynedd yn cael eu paratoi. Nodwyd bod y cynllun yn cydblethu efo polisïau’r Cyngor, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyn agor y drafodaeth allan i’r pwyllgor, gofynnwyd i’r aelodau ystyried a yw’r adroddiad yn cyfleu beth yw, yn eu barn hwy, dyheadau a gofynion pobl Gwynedd, o ystyried mynediad hygyrch i’r cefn gwlad.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad ddrafft a chychwynnwyd y drafodaeth drwy holi pa ddulliau sydd wedi eu defnyddio er mwyn asesu hygyrchedd i bobl anabl gan fod gymaint o amrywiaeth mewn anghenion. Yn ychwanegol, gofynnwyd oes oedd ymgynghoriad gyda mudiadau anabledd wedi digwydd fel rhan o’r cynllun.
- Pa gamau a bwriedir eu cymryd i ddiweddaru’r wybodaeth o ran cyflwr y rhwydwaith?- Rhoddwyd sylw ar y posibilrwydd o raddio hygyrchedd y gwahanol llwybrau er mwyn i drigolion gynllunio eu bod yn defnyddio llwybrau priodol sy’n cyfarch eu hanghenion.
- Trafodwyd os oedd pryder o golli llwybrau mewn categorïau is sydd ddim yn derbyn arian rheolaidd fel categorïau 1 neu 2.
- Nodwyd bod rhai tirfeddianwyr yn gwrthod derbyn bod llwybr cyhoeddus ar eu tir. Ategwyd hyn a nodwyd bod rhwystrau megis ffensiau yn amharu ar rhai llwybrau oherwydd hyn.

- Trafodwyd y posibilrwydd o arwyddion clir er mwyn dangos y ffordd gywir i gerddwyr neu ddefnyddwyr, gan fod rhai llwybrau yn amwys.
- Tynnwyd sylw'r pwyllgor at gyflwr y llwybr ger yr Eglwys ym Mhistyll.
- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd yr adroddiad canlynol, gan bwysleisio bod pawb yn cael budd o'r llwybrau.
- Eglurwyd bod gan rhai trefi neu gymunedau sawl llwybr i gynnal a chadw a gofynnwyd pwy sy'n cyllido'r rhain.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Rheolwr Cefn Gwlad y pwyntiau isod:-

- Sicrhawyd y pwyllgor bod ymgynghoriad eisoes wedi digwydd ynghylch hygyrchedd i bobl ag anableddau. Ategwyd at hyn gan nodi bod Swyddog Anabledd y Cyngor wedi cydweithio gyda'r adran.
- Cydnabuwyd ei bod yn anodd cwrdd ag anghenion bawb ac asesu bob llwybr, fodd bynnag cyfeiriwyd at yr egwyddor gyffredin o leihau rhwystrau a chaiff hyn ei wneud hynny ag sy'n bosib.
- Nodwyd mai un o amcanion a chamau gweithredu yw datblygu gwybodaeth sylfaenol o gyflwr y rhwydwaith.
- Mewn ymateb i bryderon ynghylch colli llwybrau, nodwyd bod y categorïau isaf yn cynnwys llwybrau sydd bellach ddim mewn defnydd, fodd bynnag nid ydynt wedi eu colli'n gyfreithiol. Ategwyd ei fod yn broses hir i ildio meddiant llwybr.
- Ynghylch y llwybr ger Eglwys ym Mhistyll, nodwyd y byddai'r gwasanaeth priodol yn cael eu hysbysu am hyn.
- Ynghylch cynnal a chadw o fewn cymunedau a threfi, nodwyd bod y Cyngor yn cyfrannu tuag at hyn a bod posib ceisio am grantiau allanol. Ategwyd bod swyddogion cyswllt yn gweithio er mwyn adnabod grantiau lleol er defnydd i gynnal a chadw llwybrau.

**PENDERFYNWYD**

- Derbyn y cynllun drafft gan nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod i'w hymgorffori yn y ddogfen er ymgynghoriad cyhoeddus.
- Bod y fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**6. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth am y canllaw cynllunio atodol. Gofynnwyd i'r pwyllgor roi adborth cyn i'r adroddiad fynd gerbron y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn roi penderfyniad i'w fabwysiadu neu beidio.

Adroddwyd ar y cynnwys ac yna tynnwyd sylw at Atodiad 2 sef fersiwn drafft cyflawn o'r Canllaw Cynllunio Atodol sydd eisoes wedi ei gyflwyno i Bwyllgor Sgriwtini a Phartneriaeth, Cyngor Sir Ynys Môn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Cwestiynwyd a yw'r polisi newydd yn caniatáu safleoedd ar gyfer carafanau sefydlog yn ogystal ag rhai teithiol
- Mynegwyd pryder ynghylch Gor-dwristiaeth fel y gwelwyd llynedd wedi ymlacio cyfyngiadau.

- Ategwyd bod nifer uchel iawn o safleoedd garafanau yng Ngwynedd fel y mae hi.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, nodwyd:-

- Bod y polisi dan sylw yn caniatáu ar gyfer carfanau teithiol newydd ynghyd a rhai sefydlog newydd cyn belled bod y safleoedd sefydlog heb eu lleoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu'r Ardal o Dirwedd Arbennig. Nodwyd y bydd y polisïau mewn perthynas a safleoedd carafanau yn destun y broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Ar y pryder o gor-dwristiaeth, sicrhawyd y byddai hyn yn cael ei ail-ymweld
- Ceir sawl esiampl lle mae ceisiadau wedi cael eu gwrthod os ydynt yn groes i gynlluniau perthnasol, a bod sgôp i wrthod datblygiadau nad ydynt yn cydymffurfio a pholisïau perthnasol.
- Bod newidiadau mawr ar y gweill ar lefel genedlaethol ynghylch cynllunio a byddai hyn yn cael ei hystyried wrth adolygu'r cynllun.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.

**7. GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD - GWAITH YN YSTOD Y PANDEMIG**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Adran Amgylchedd gan bwysleisio'r gwahanol agweddau mae'r gwasanaeth gwarchod y cyhoedd wedi bod yn ymdrin â dros y cyfnod diwethaf.
Ategwyd bod proffil y gwasanaeth wedi ei amlygu gan iddynt weithio ar y rheng flaen yn ddiweddar wrth olrhain cysylltiadau a gyda chydymffurfiaeth rheoliadau COVID-19.

Eglurwyd un pryder ar gyfer y gwasanaeth wrth symud ymlaen sef darparu gwasanaeth arferol h.y. archwiliadau hylendid bwyd wrth i lefydd ail agor, yn ogystal â'r gofynion presennol ynghylch y pandemig.

Ychwanegwyd bod tri swyddog ychwanegol wedi eu penodi ar gyfer rhannu baich gwaith wrth i ofynion y gwasanaeth ehangu. Ategwyd y byddai'r swyddogion newydd yn cael eu datblygu a'u hyfforddi at y diben o'u cadw ymlaen fel swyddogion Iechyd a Diogelwch y dyfodol i gryfhau'r gwasanaeth.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r holl adran am eu gwaith pwysig iawn dros y cyfnod COVID-19.
- Ategwyd bod achosion o COVID-19 wedi cynyddu yn ardal Bala er enghraifft, a bod swyddogion olrhain wedi gweithio'n ddiddiwedd er mwyn cysylltu â phawb.
- Gofynnwyd sut mae'r adran yn ymdrin â thrigolion sydd wedi cychwyn busnesau bwyd o'u tai dros y pandemig.
- Croesawyd y newyddion bod tri aelod newydd wedi eu penodi i'r adran a nodwyd bod hyn yn symudiad da ar gyfer y dyfodol.
- Diolchwyd am yr holl ddiweddariadau sydd wedi bod drwy e-bost ar y sefyllfa gwarchod y cyhoedd ac ategwyd bod yr adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith ychwanegol sydd ar waith.
- Gofynnwyd a yw'r gwasanaeth yn ffyddiog y byddant yn ymdopi'n ddigonol a'u llwyth gwaith wrth i ddyletswyddau arferol ddychwelyd.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodwyd y canlynol:-

- Eglurwyd bod yr adran yn gefnogol o'r trigolion sydd wedi mynd ati i sefydlu busnesau bwyd o'u cartrefi yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, nid pob un sy'n cysylltu â'r adran er mwyn cofrestru a nodwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn i'r adran sicrhau safonau iechyd a diogelwch.
- Atgyfnerthwyd mai pwrpas yr adran yw cefnogi ac ymgysylltu dim i gosbi a gorfodi.
- Nodwyd y byddai straen ar y gwasanaeth petai archwiliadau yn ailgychwyn ar raddfa arferol, ar ben dyletswyddau COVID-19.
- Cydnabuwyd bod swyddogion yr adran yn gweithio oriau hir a bod hon yn sefyllfa hirdymor hyd hyn, dim yn un dros dro fel y rhagwelwyd yn gychwynnol.
- Nodwyd bod cefnogaeth gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn penodi staff ychwanegol i'w groesawu gan ei bod yn lleihau pwysau ar y swyddogion.
- Parthed y sefyllfa COVID-19, nodwyd bod y niferoedd yn ystyfnig o fewn y Sir , a bod clystyrau wedi ymddangos yn ddiweddar.

Yn ychwanegol at yr ymatebion, nododd y Pennaeth yr Adran Amgylchedd bod risgiau wedi eu hamlygu dros y deuddeg mis diwethaf gan i faterion ag elfennau risg uchel wedi parhau i ddigwydd. Ategodd bod swyddogion wedi gorfod parhau i ddelio gyda materion difrifol iechyd a lles, er enghraifft materion sy'n ymwneud ag lles anifeiliaid. Ar ben hyn, atgoffwyd bod materion ynghylch 'Brexit' wedi parhau gan gynnwys cefnogi busnesau gydag allforio, yn enwedig busnesau cyflenwi bwyd.

Ar y cyfan, rhagwelwyd cyfnod heriol i ddod wrth ymdopi â'r economi yn ail agor yn raddol.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn cynnwys yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.15yp.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **22ain Ebrill 2021** |
| **Teitl** | Adroddiad Cynnydd ar Gyflawni'r Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Pwrpas** | Darparu adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |

**1. Cyflwyniad a chyd-destun**

**1.1** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

**1.2** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Yn wir sefydlwyd BGC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i sicrhau cydweithio ymysg cyrff cyhoeddus i greu gwell dyfodol ar gyfer pobl Cymru. Y penderfyniad a wnaethpwyd yng Ngogledd Orllewin Cymru oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i Wynedd fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn.

**1.3** Yn ystod 2017 rhannodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ein cymunedau yn 14 o ardaloedd llai er mwyn cynnal gwaith ymchwil manwl, a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Cyhoeddwyd y wybodaeth ar ffurf yr Asesiadau Llesiant. Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r asesiadau i lunio blaenoriaethau'r BGC sydd wedi eu cadarnhau yn y Cynllun Llesiant (2018). Cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol:

- Yr iaith Gymraeg
- Cartrefi ar gyfer bobl leol;
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau;
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau;
- Iechyd a gofal oedolion, a Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.

**2 Diweddariad ar gynnydd gwaith y BGC**

**2.1** Fel yr amlygir yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y BGC bedwar aelod statudol sef yr Awdurdodau Lleol, Y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân- ynghyd â chyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd.

**2.2** Mae'r gan y BGC is-grwpiau er mwyn ei gefnogi i weithredu ei swyddogaethau. Ceir isod ddiweddariad ar waith yr is-grwpiau. Mae'n deg dweud fod y pandemig wedi arafu cynnydd yr is-grwpiau yn ystod y misoedd diwethaf, ond bellach mae pob un o'r is-grwpiau yn ail afael yn eu cynlluniau gwaith. Maer BGC wedi parhau i gynnal cyfarfodydd yn ystod cyfnod y pandemig sy'n dangos ymrwymiad ein haelodau i'r gwaith.

**2.3 Amcan 1 – Cymunedau sy’n ffynnu** ac **yn llewyrchus i’r hir-dymor**

| **Blaenoriaeth** | **Beth mae’r BGC wedi’i gyflawni hyd yma** |
|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg**: Byddwn yn cyd-weithio i gynyddu’r defnydd o’r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o’r iaith Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir. | ▪ Mewn perthynas â’r weithred o hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus, roedd yr is-grŵp wedi cychwyn rhoi sylw i'r mater. Yn ystod y cyfnod cyn y pandemig roeddent wedi cyflwyno prosiect i edrych ar sut y gellid cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn derbynfeydd y cyrff cyhoeddus. Roedd arian grant hefyd wedi ei adnabod ar gyfer cefnogi’r prosiect. Yn anffodus bu rhaid gohirio’r prosiect oherwydd y pandemig.<br>▪ Erbyn hyn mae arweinydd newydd i’r is-grŵp iaith sef Aled Jones Griffith o Goleg Llandrillo Menai. Mae’r is-grŵp yn rhoi sylw i addasu’r cylch gorchwyl, gan ddiffinio’n glir beth yw pwrpas a sgôp yr is-grŵp. Yn ystod y 6-12 mis nesaf byddent yn canolbwyntio ar 2/3 prosiect, gan roddi ystyriaeth i'r canlynol: ail ymweld â’r prosiect derbynfeydd, materion TG, y defnydd o apiau a’r disgwyliad ieithyddol wrth sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol (CBCau). |
| **Cartrefi ar gyfer bobl leol:** Byddwn yn cydweithio gyda’r sector dai i sicrhau mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir er mwyn diwallu anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cartrefi yn rhai o ansawdd sy’n cwrdd ag anghenion trigolion. | Pwrpas yr is-grŵp yw edrych am gyfleoedd i ddatblygu tai arloesol, sy’n cyd fynd ac nid yn dyblygu'r gwaith sy’n deillio o strategaeth tai Gwynedd.<br><br>Mae’r grŵp wedi sefydlu trefn cydweithio a rhannu arfer dda rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri ac Adra. Cynhaliwyd gwerthusiad o wahanol fodelau tai arloesol a’u hyfywedd ariannol, a gwerthusiad o wahanol safleoedd a’u haddasrwydd ar gyfer datblygu tai arloesol. Mae’r broses yma wedi dangos parodrwydd y partneriaid i rannu gwybodaeth am ragdybiaethau ariannol ac am eu hasedau gyda’r is-grŵp, sef gweithred sy’n dangos y budd o gydweithio. |

| | |
|---|---|
| | Bu i'r is-grŵp werthuso nifer fawr o safleoedd fel rhan o'u gwaith, a'u haddasrwydd ar gyfer gwahanol fodelau. Defnyddiwyd yr ymarfer i ddiystyru safleoedd nad oedd yn addas neu hyfyw, ac os oes unrhyw gyfle i gyd gaffael (os bydd eu hamserlenni yn cyd-fynd). O ganlyniad mae safleoedd wedi eu pennu ar gyfer datblygu tai arloesol.<br><br>Y teimlad ymysg yr is-grŵp ydi bod eu gwaith yn dirwyn i ben gan y byddai parhau â'r gwaith yn dyblygu yr hyn sydd eisoes ar y gweill gan y sefydliadau unigol. Y ffocws felly am y 6 mis ydi edrych ar rhai o'r safleoedd sydd wedi eu hadnabod ac ystyried os oes cyfle i ddatblygu ar y cyd<br><br>Ar fater cysylltiedig â gwaith yr is-grŵp cartrefi (ond ddim yn rhan o'u cynllun gweithredu) gwahoddwyd Dafydd Gibbard i gyfarfod y BGC ym mis Rhagfyr i roi diweddariad gan Gyngor Gwynedd ar effaith ail gartrefi ar y farchnad dai. Mae argaeledd tai i bobl leol yn parhau i fod yn bryder i'r BGC, a'r sefydliadau unigol. Cytunwyd i'r BGC ysgrifennu llythyr at y Llywodraeth i gefnogi safbwyntiau Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn am y mater, sydd eisoes wedi cysylltu gyda'r Llywodraeth i ofyn iddynt gydweithio ar eu pryderon ynghylch y sefyllfa. Roedd y llythyr gan y BGC yn benodol yn cyfeirio at y ffaith fod y sefyllfa yn debygol o gael effaith niweidiol ar lesiant ein trigolion yn yr hir dymor. |
| **Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau:** Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi. | Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhoi cryn ystyriaeth i sut y gallent ymateb i'r flaenoriaeth yma, heb ddyblygu gwaith y cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn gwneud gwaith yn y maes. Cytunwyd mai rôl y BGC fydd i gadw trosolwg ar waith sy'n digwydd yn y maes tlodi gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn y lle cyntaf. Mae gan yr Awdurdodau Lleol eu trefniadau a'u cynlluniau ar gyfer ymdrin â thlodi. Yng Ngwynedd mae'r Cyngor yn cydweithio ar Raglen Cefnogi |

| | |
|---|---|
| | Pobl gyda'r nod o roi'r gefnogaeth gywir, ar yr amser cywir i gefnogi Llesiant Pobl Gwynedd.<br><br>Pwysleisiwn fod gan bob un o bartneriaid eraill y Bwrdd hefyd drefniadau a chynlluniau eu hunain i ymdrin â thlodi. Daeth hynny yn amlycach byth yn ystod cyfnod y pandemig, ble dynnwyd pawb ynghyd i edrych ar ôl ein cymunedau mwyaf bregus. |
| Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau: Byddwn yn cydweithio yn lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau. | Cynhaliwyd cyfres o weithdai yn ddiweddar er mwyn cydweithio ar ddiweddaru cynllun gweithredu'r is-grŵp. Mae'r is-grwp hefyd yn cynnwys mewnbwn sefydliadau eraill i'r gwaith, gan gynnwys Cyngor Gwynedd. Maent wedi cytuno ar y weledigaeth ganlynol "Rhoi'r grym i'n cymunedau i addasu, rheoli a lleihau effaith newid yn yr hinsawdd: adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn ystod Covid ynghylch gwerth mynediad i leoedd/gofod lleol i'n bywydau."<br><br>Bydd gwaith yn cychwyn mewn 3 ardal beilot o fewn y 6-12 mis nesaf. Mae'r is-grŵp hefyd yn disgwyl cyfarwyddyd ar lefel rhanbarthol i faterion newid hinsawddd. Comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru Alan Netherwood i lunio adroddiad ar ddull rhanbarthol o ymdrin â Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r adroddiad yn argymell bod Gogledd Cymru yn symud tuag at ddull trawsnewidiol o ymdrin ag argyfwng yr hinsawdd ac yn nodi tri maes blaenoriaeth lle dylid datblygu cydweithredu rhanbarthol dros gyfnod o dair blynedd. Byddai hyn yn trin newid yn yr hinsawdd fel mater strategol sy'n hanfodol i les y rhanbarth yn y dyfodol.<br><br>Ochr yn ochr â gwaith yr is-grŵp mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn cynnal sesiynau ymgynghori/ ymgysylltu yn gysylltiedig â'u gwaith ar y Datganiadau Ardal. Bydd y dystiolaeth a chanfyddiadau'r datganiadau ardal yn cael eu plethu mewn i waith yr is-grŵp. |

**2.4 Amcan 2**

**Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da. I wireddu'r amcan yma rydym wedi blaenoriaethu:**

| Blaenoriaeth | Beth mae'r BGC wedi'i gyflawni hyd yma |
|---|---|
| **Iechyd a gofal oedolion:** Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio yn lleol i gynllunio ystod eang o weithgareddau ataliol ar gyfer oedolion er mwyn eu galluogi i fyw yn iach ac annibynnol. | Er mwyn cyflawni yn erbyn y ddwy flaenoriaeth hyn mae'r is-grŵp Iechyd a gofal wedi'i sefydlu.<br><br>Pwrpas y grŵp hwn yw sefydlu trefniadau gweithio ar y cyd ymhlith sefydliadau cyhoeddus ym maes Iechyd a gofal<br><br>Dyma'r ffrydiau gwaith sy'n adrodd i'r is-grŵp:<br><br>• Oedolion<br><br>• Plant<br><br>• Anableddau Dysgu<br><br>• Iechyd meddwl<br><br>• Trawsnewid Cymunedol<br><br>Defnyddir arian o'r bidiau trawsnewid i ddarparu rhaglenni trawsnewid iechyd meddwl, plant a'r gymuned. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer integreiddio iechyd a gofal ar y lefel mwyaf lleol ar draws y sir. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod ansicr ac mae'r angen i gydweithio, rhannu gwybodaeth a sicrhau mynediad rhwydd i'n gwasanaethau yn bwysicach nag erioed. Mae'r is-grŵp yn dangos parodrwydd i weithio mewn ffyrdd hyblyg, gwahanol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y misoedd diwethaf.<br><br>Mae'r pandemig wedi effeithio ar gynnydd pob ffrwd gwaith, ond mae cynlluniau i ail afael ynddynt ac adolygu'r cylch gorchwyl |
| **Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc:** Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac annibynnol o fewn eu cymunedau i'r hir dymor. | |

| | |
|---|---|
| | ar y gweill. Bwriedir rhoddi ystyriaeth i sut mae gwaith yr is-grŵp penodol yma yn ychwanegu gwerth at gynlluniau eraill iechyd a gofal ac alinio'r gwaith gyda threfniadau rhanbarthol iechyd a gofal. |

**3. Asesiadau Llesiant**

**3.1** Cyhoeddwyd yr asesiadau llesiant cyntaf gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn 2017. Pob 5 mlynedd, ac fel un o ofynion statudol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal, heb fod yn fwy na blwyddyn cyn iddynt gyhoeddi eu cynllun llesiant lleol. Rydym wedi cychwyn trafodaethau yng Ngwynedd ac Ynys Môn ar y ffordd orau i gynnal yr asesiadau a chyflawni dyletswyddau'r BGC.

**3.2** Gwyddwn fod cymunedau Môn a Gwynedd wedi blino ar dderbyn ceisiadau i gyfrannu at nifer o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu yn ddiweddar. Gobeithir i'r BGC gyfrannu at ddarn o waith cynhwysfawr, fydd yn dangos parodrwydd y partneriaid i gydweithio a sicrhau fod yr asesiadau o ddefnydd i'r cyrff partner y BGC a thrigolion Ynys Môn a Gwynedd.

**3.3** Mae trafodaethau mewnol gyda'r Cynghorau a rhanbarthol gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill, eisoes ar droed ar gyfer cynnal/diweddaru yr asesiadau llesiant. Fel cam cychwynnol rydym wedi ystyried y gwaith ymgysylltu fydd yn digwydd yng nghymunedau Gwynedd ac Ynys Môn yn ystod y 6-12 mis nesaf. Bydd gwaith yn gysylltiedig â'r prif feysydd canlynol: Asesiadau Llesiant, Asesiad Poblogaeth (syn ofyn ar y Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd), a chynlluniau unigol gan y Cynghorau megis Fframwaith Adfywio yng Ngwynedd. Gwyddwn hefyd am waith sy'n gysylltiedig â'r Datganiadau Ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru sydd eisoes ar droed. Rhagwelir rôl o gydlynu'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau uchod gan dîm cefnogi'r BGC.

**4.0 Cyflawni**

**4.1** Mae'r pedwar is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Disgwylir bod arweinyddion yr is-grwpiau yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn chwarterol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

**4.2** Mae'r BGC yn gweithredu yn unol â saith egwyddor, sef y pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol uchod, ynghyd â dau sydd wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd sef 'Yr Iaith Gymraeg' a 'Chydraddoldeb'. Golyga hyn weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

**4.3** Er mwyn ymateb i'r amserlen o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer 2020/21 erbyn mis Gorffennaf 2021. Bydd y BGC yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol i Bwyllgor Craffu Gwynedd cyn hynny, er sylwadaeth.

**5. Trefniadau Craffu**

**5.1** Er mwyn cael atebolrwydd democrataidd i gynnydd gwaith y BGC mae'r ddeddf wedi gosod gofyniad ar gynghorau i ddynodi Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar waith y BGC. Felly mae gwaith BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei graffu gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar bwyntiau penodol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi tair rôl ar gyfer pwyllgorau craffu Awdurdodau Lleol sef:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Bod yn Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant.

**5.2** Golygir hyn fod y pwyllgorau craffu yn cael cyfle i graffu perfformiad ac effaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd trafodaethau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar yr opsiwn o sefydlu un panel craffu, i weithredu ar draws y ddwy sir i graffu gwaith y BGC. Gwerthuswyd gwahanol opsiynau gan reolwyr craffu'r ddau gyngor a daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach am ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y ddwy Sir a pharhau efo'r trefniadau craffu bresennol. Bydd modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law.

**6. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

**6.1** Mae tîm cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb) a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant. Yn ogystal bydd asesiadau effaith yn cael eu defnyddio pan fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno gan yr is-grwpiau sy'n argymell newid polisi / gwasanaeth. Felly bydd asesiadau effaith yn cael eu datblygu er mwyn mesur a deall effaith y penderfyniadau ar ran yr is-grwpiau fydd yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **Dyddiad** | **22 Ebrill 2021** |
| **Teitl** | **RHEOLAETH O ARDDANGOSFEYDD TÂN GWYLLT** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth W Griffith** |
| **Awdur** | **Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **Pwrpas** | **Egluro'r cyfrifoldebau statudol a'r trefniadau gwaith sydd gan y Cyngor o ran rheolaeth o arddangosfeydd tân gwyllt.** |

**1. CEFNDIR**

1.1. Cyflwynir yr adroddiad mewn ymateb i rybudd o gynnig gan y Cynghorydd Paul Rowlinson sef:

*"Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymryd i hyrwyddo neu annog:*

- fod pob arddangosfa tân gwyllt cyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.
- ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.
- cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.
- pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig."

1.2 Er mwyn ceisio ymateb i'r materion a godir uchod ac i hwyluso mewnbwn y Pwyllgor Craffu, credir ei fod yn bwysig i egluro yn gyntaf beth yw cyfrifoldebau statudol y Cyngor gyda thân gwyllt ac arddangosfeydd tân gwyllt, yn ogystal ac egluro unrhyw drefniadau gwaith sydd gan y Cyngor sydd ddim yn ofynnol yn statudol. Gellir wedyn ymateb i'r pwyntiau bwled uchod yn unigol.

**2. CYFRIFOLDEBAU STATUDOL A THREFNIADAU GWAITH**

**Gwerthiant a diogelwch cynnyrch**

2.1 Mae cyfrifoldebau statudol gan y Cyngor o ran gwerthiant tan gwyllt yn cael eu gweithredu gan y Gwasanaeth Safonau Masnach, Marchnadoedd a Ffeiriau (Gwarchod y Cyhoedd), yr Adran Amgylchedd ac wedi eu cyfyngu i:

- Deddf Ffrwydron 2014
- Rheoliadau Tân Gwyllt 2004
- Rheoliadau Erthyglau Tân Gwyllt (Diogelwch) 2015

2.2 Mae'r Ddeddf Ffrwydron 2014, yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i drwyddedu pob busnes neu eiddo sydd yn dymuno storio tân gwyllt. Mae cofrestr yn cael ei gadw, a bydd pob eiddo yn derbyn archwiliad i sicrhau fod yr eiddo yn addas i storio tân gwyllt, ac yn cydymffurfio gyda'r gofynion.

2.3 Mae Rheoliadau tân gwyllt 2004 a Rheoliadau Erthyglau Tân Gwyllt (Diogelwch) 2015 yn rhoi cyfrifoldeb arnom i gyfyngu cyflenwad tân gwyllt yn ogystal â sicrhau diogelwch a safonau'r tân gwyllt ei hunain (y cynnyrch). Mae hyn yn cynnwys cyfyngu'r cyfnod lle ceir gwerthu tân gwyllt i dymhorau penodol, ynghyd a sicrhau nad ydy tân gwyllt yn cael ei werthu i unrhyw un o dan oed penodol. Y cyfnod penodol yw:

- 15fed o Hydref i 10fed o Dachwedd
- 26ed o Ragfyr dan 31ain Ragfyr
- Blwyddyn newydd Tsieineaidd a 3 diwrnod blaenorol
- Diwrnod diwali a 3 diwrnod blaenorol.

2.4 Mae'n werth nodi bod posib gwneud cais am drwydded i werthu tân gwyllt trwy'r flwyddyn o dan y Rheoliadau. Mae'r gost o hyn fodd bynnag yn sylweddol uwch na cost trwydded cyffredin. Ar hyn o bryd mae'n werth nodi mai dim ond 1 eiddo yng Ngwynedd sydd hefo trwydded o'r fath.

2.5 Mae 4 math o dân gwyllt (categori F1/F2/F3/F4). Mae trwydded yn caniatáu storio a gwerthiant o dan gwyllt categori F1, F2 a F3, sef tân gwyllt sydd yn addas i ddefnyddwyr yn unig (defnyddiwr / defnydd y cyhoedd yn unig). Mae categori F4 yn fath proffesiynol o dân gwyllt sydd â pherygl uchel ac i'w defnyddio gan berson proffesiynol, neu sydd hefo gwybodaeth arbenigol i ddefnyddio mewn arddangosfeydd proffesiynol. Nid oes gennym unrhyw berson/busnes yng Ngwynedd sydd yn storio/gwerthu tân gwyllt categori F4.

2.6 Mae'n rhaid i dân gwyllt F1/F2/F3 gyrraedd gofynion diogelwch hanfodol, ac mae'n werth nodi na chaiff lefel sŵn fod yn uwch na 120db oddi fewn pellter perthnasol (F1 – 1 medr, F2 – 8 medr, F3 – 15 medr).

2.7 Yn gyffredinol nid oes tystiolaeth o unrhyw broblemau o ran cydymffurfio gyda'r gofynion statudol o safbwynt gwerthiant a diogelwch cynnyrch, ac mae cydweithrediad da rhwng y Cyngor a'r busnesau perthnasol.

2.8 Yn **Atodiad 1** i'r adroddiad, rhoddir trosolwg mwy manwl o beth yw'r gofynion, mewn dogfen gan y grŵp Safonau Masnach Cymru, sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Gwasanaethau Safonau Masnach ar draws Cymru.

**Materion sŵn**

2.9 O safbwynt materion yn ymwneud yn benodol a llygredd sŵn, mae gan y Cyngor bwerau statudol sydd yn cael eu gweithredu gan y Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu (Gwarchod y Cyhoedd). Y Ddeddfwriaeth berthnasol sy'n caniatáu grymoedd i'r Cyngor i ddelio gyda achosion o niwsans sŵn yw y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Er mwyn gweithredu o dan y Ddeddf mae'n rhaid wrth dystiolaeth, fod digwyddiad yn debygol o greu niwsans statudol, neu fod tystiolaeth fod sawl digwyddiad rheolaidd ac aml wedi achosi pobl ddioddef sŵn yn eu tai.

2.10 Pan mae defnydd tân gwyllt mewn digwyddiad swyddogol, mae swyddogion yn gallu rhoi cyngor ar sut i arbed effeithiau gwaethaf sŵn, a gofyn am gyfyngu'r amseroedd mae tân gwyllt yn cael eu defnyddio, os yw'r Cyngor yn cael gwybod am y digwyddiad. Pan mae tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio yn achlysurol iawn, yn ddirybudd gan unigolion, nid yw yn bosib gweithredu pwerau atal niwsans statudol oherwydd diffyg tystiolaeth fod y niwsans yn mynd i ddigwydd eto.

2.11 Nodir hefyd, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd i law, mai pur anaml yw'r achosion gwynion yn cael eu cyflwyno i Wasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu (Gwarchod y Cyhoedd), ynglŷn ag arddangosfeydd tan gwyllt sydd wedi eu trefnu. Os oes achosion lle mae tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio mewn modd gwrth gymdeithasol, yna mae hyn fel arfer yn fater sydd yn cael ei gyfeirio at yr heddlu.

**Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a chynghori defnyddwyr / trefnwyr**

2.12 Yn ogystal â'r cyfrifoldebau statudol y cyfeirir atynt uchod, mae'r Gwasanaeth Safonau Masnach, Marchnadoedd a Ffeiriau yn ymgymryd â gwaith sydd ddim yn statudol mewn perthynas â thân gwyllt.

2.13 Mae ymgyrchoedd yn cael eu cynnal yn flynyddol o ran diogelwch gyda choelcerthi a thân gwyllt, yn ymgorffori cyngor ymarfer da i bobl sydd yn trefnu arddangosfeydd tân gwyllt o ran peidio tanio tân gwyllt yn rhy hwyr yn y nos ac ati.

2.14 Mae'r trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn cynnwys cydweithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gyda datganiadau i'r wasg yn cael eu cylchredeg yn flynyddol, a threfniadau cyffelyb hefyd yn cael eu gweithredu ar lefel genedlaethol.

2.15 Mae trefniadau mewn gwaith gwirfoddol mewn lle felly sydd yn gweithredu drwy godi ymwybyddiaeth a chyfeirio darpar ddefnyddwyr / trefnwyr tuag at y gofynion perthnasol ac ymarfer da, er enghraifft y Cod Tân Gwyllt sydd wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn. Nodir fod y Cod Tân Gwyllt yn cynnwys cyfeiriad at y canlynol:

- Parchwch eich cymdogion - peidiwch â thanio tân gwyllt yn hwyr yn nos a chofiwch fod rheoliadau i'w dilyn.
- Cadwch unrhyw anifeiliaid anwes yn y tŷ yn ystod y nos.

## 3. YMATEB I'R RHYBUDD O GYNNIG

3.1 Gan nodi'r gofynion statudol uchod a'r gwaith anstatudol sydd yn cael ei wneud gan y Gwasanaethau, cynigir y sylwadau canlynol ar y pwyntiau bwled sydd yn y rhybudd o gynnig:

- **fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.**

3.2 Yn ddelfrydol cytunir y byddai hyn yn ymarfer da a gallwn barhau i godi ymwybyddiaeth o ymarfer da, ond yn anffodus nid oes gan y Cyngor bwerau i orfodi hyn.

- **ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.**

3.3 Yn ystod y cyfnodau gwerthu tân gwyllt, mae'r Gwasanaeth Safonau Masnach, Marchnadoedd a Ffeiriau yn ceisio sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rannu ar ymarfer da yn ymwneud a diogelwch tân gwyllt, y peryglon ac ati. Fel arfer drwy bostio ar dudalennau gwefannau cymdeithasol y cyngor e.e. facebook/twitter. Hefyd, fel y nodir uchod mae ymgyrchoedd yn cael ei chydlynu ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ogystal ac ar lefel genedlaethol, sydd yn cynnwys datganiadau i'r wasg yn genedlaethol ac yn lleol.

- **cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.**

3.4 Mae pob cyflenwr yng Ngwynedd wedi ei drwyddedu i werthu categori F1, F2 neu F3 yn unig. Mae hyn yn golygu na fydd lefel sŵn yn uwch na 120db oddi fewn pellter perthnasol (F1 – 1 medr, F2 – 8 medr, F3 – 15 medr).

- **pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig.**

3.5 Mae'r Gwasanaeth, Safonau Masnach, Marchnadoedd a Ffeiriau yn gyfrifol am yr ochr storio a gwerthu tân gwyllt. Mae gwerthiant wedi ei gyfyngu i gyfnodau penodol sydd yn agos i'r dyddiadau arbennig fel sydd wedi ei grybwyll eisoes.

3.6 Yn gyffredinol mae'r cyfyngiadau gwerthu yn tueddu i ddylanwadu ar y cyfnod mae rhywun yn tanio tân gwyllt, ond mae hawl i rywun danio tân gwyllt unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd yn atal hynny rhwng 11pm a 7am heblaw am:

- Noson tân gwyllt lle gellir tanio hyd at hanner nos
- Noson Galan, Diawli a blwyddyn newydd Tsieineaidd hyd at 1am

3.7 Felly, yn anffodus gan fod y gyfraith yn caniatáu'r uchod o ran tanio tân gwyllt, ni ellir gorfodi pobl i ddefnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu dderbyn yr adroddiad a chyflwyno unrhyw sylwadau.

---

**ATODIADAU**

ATODIAD 1: Canllawiau gan grŵp Safonau Masnach Cymru

ATODIAD 2 : Y Cod Tân Gwyllt

Atodiad 1

# Tân gwyllt

**Yn y canllawiau**


- **Pryd allwch chi werthu tân gwyllt?**
- **Sut ydych chi'n cael trwydded i storio tân gwyllt?**
- **Eithriad rhag trwyddedu**
- **Sut ydych chi'n storio a gwerthu tân gwyllt yn ddiogel?**
- **Pa fathau o dân gwyllt sydd wedi'u gwahardd?**
- **Beth yw'r cyfyngiadau oedran sy'n berthnasol i werthiant tân gwyllt?**
- **Amddiffynfeydd**
- **Cadw o fewn y gyfraith**
- **Gwerthiannau ar-lein**
- **Gwybodaeth bellach**
- **Cosbau**


Canllaw ar werthu tân gwyllt, gan gynnwys trwyddedu, categorïau tân gwyllt a chyfyngiadau oedran

**Mae'r canllawiau hyn ar gyfer Cymru a Lloegr**

Os ydych yn bwriadu gwerthu tân gwyllt oedolyn (categorïau F2 a F3) i ddefnyddwyr rhaid i chi gael trwydded storio gan eich awdurdod lleol yn gyntaf. Os ydych yn bwriadu gwerthu tân gwyllt oedolion drwy'r flwyddyn rhaid i chi hefyd gael trwydded werthu gydol y flwyddyn gan eich awdurdod lleol.

Eich cyfrifoldeb chi yw cadw o fewn y gyfraith a bod â systemau yn eu lle a fydd yn amddiffyniad 'diwydrwydd dyladwy' i honiad bod gwerthiant wedi digwydd i berson o dan yr oedran cyfreithiol gofynnol.

**Pryd allwch chi werthu tân gwyllt?**

Os ydych wedi gwneud cais i'ch awdurdod lleol (ac wedi cael caniatâd) trwydded storio, yna gallwch werthu tân gwyllt oedolion yn unig yn ystod y cyfnodau amser canlynol:

- rhwng 15 Hydref a 10 Tachwedd
- rhwng 26 a 31 Rhagfyr
- ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn newydd Tsieineaidd a'r tri diwrnod yn union cyn hyn
- ar ddiwrnod cyntaf Diwali a'r tri diwrnod yn union cyn hyn

Os ydych yn dymuno gwerthu y tu allan i'r cyfnodau hyn, yna bydd angen i chi wneud cais am drwydded gwerthu dros flwyddyn a thalu ffi o £500.

**Sut ydych chi'n cael trwydded i storio tân gwyllt?**

Os ydych chi am storio mwy na 5 kg a llai na 2,000 kg o gynnwys ffrwydrol net (NEC) tân gwyllt oedolion, mae angen i chi wneud cais i'ch awdurdod lleol am drwydded. Gall eich awdurdod lleol roi ffurflen gais i chi, y dylech ei llenwi a'i dychwelyd gyda'r ffi, cynllun y safle a, lle bo'n berthnasol, cynllun llawr.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn i chi nodi'r'math o berygl'a faint o gynnwys ffrwydrol rydych chi'n bwriadu ei storio. Mae tân gwyllt wedi'i rannu'n bedwar math o berygl (HT1, HT2, HT3 a HT4) at ddibenion trwyddedu storio. Nid yw HT1 a HT2 yn addas i'w storio mewn adwerthu ac mae maint y HT3 a'r HT4 yn gyfyngedig fel a ganlyn:

- gallwch storio hyd at 250 kg o dân gwyllt HT4 mewn adeilad addas heb unrhyw wahanu sydd ei angen oddi wrth adeiladau neu lefydd eraill sydd â mynediad i'r cyhoedd
- fe'ch cyfyngir i 25 kg o dân gwyllt HT3 neu gyfuniad o sân gwyllt HT3 a HT4 mewn adeilad addas heb unrhyw wahanu sydd ei angen o adeiladau neu fannau eraill â mynediad i'r cyhoedd
- lle mae llety cysgu gerllaw storfa tân gwyllt, dim ond 75 kg o dân gwyllt HT4 y gellir ei storio
- mae angen adeilad addas wedi'i wahanu oddi wrth adeiladau eraill neu leoedd â mynediad i'r cyhoedd er mwyn storio mwy na 250 kg o dân gwyllt HT4 neu storio mwy na 25 cilogram o dân gwyllt HT3 hyd at 2,000kg.

Dylech ofyn am gyngor gan eich cyflenwr ynghylch addasrwydd y tân gwyllt yr ydych yn bwriadu ei storio a'i werthu. Mae storio tân gwyllt HT3 yn cyfyngu'n ddifrifol ar faint o dân gwyllt y gallwch ei storio mewn safleoedd manwerthu nodweddiadol. Rheolir gwerthiant tân gwyllt gan ddeddfwriaeth wahanol, sy'n defnyddio system rifo wahanol. Mae tân gwyllt HT4 yn addas i'w manwerthu ac fe'u categoreiddir i'w gwerthu gan ddefnyddio system a esbonnir isod. Mae tân gwyllt HT3 fel arfer ar gael gan gyflenwyr tân gwyllt arbenigol yn unig, sydd â safleoedd sydd ond yn cyflenwi tân gwyllt.

**Eithriad rhag trwyddedu**

Mae eithriad arbennig rhag trwyddedu yn cael ei wneud lle mae'r unig dân gwyllt a gynigir i'w werthu yn cynnwys tân gwyllt categori F1 ac nid yw cyfanswm cynnwys ffrwydrol y tân gwyllt yn fwy na 5kg.

Mae tân gwyllt Categori F1 yn achosi perygl isel iawn a lefel o swn dibwys, a bwriedir eu defnyddio mewn ardaloedd cyfyng, gan gynnwys mewn adeiladau domestig.

Rhaid storio'r tân gwyllt yn ddiogel fel yr eglurir yn yr adran nesaf ond gellir ei werthu drwy'r flwyddyn i bobl 16 oed a throsodd. Argymhellir y dylid cadw'r tân gwyllt y tu ôl i'r cownter, allan o gyrraedd plant a dylid dangos rhybudd o'r cyfyngiad oedran.

**Sut ydych chi'n storio a gwerthu tân gwyllt yn ddiogel?**

Mae'r maes hwn wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Ffrwydron 2014.

Bydd eich awdurdod lleol yn rhoi cyngor i chi ar storio a gwerthu tân gwyllt yn ddiogel. Mae gan yr HSE hefyd ganllawiau ar **storio a gwerthu tân gwyllt** ar ei wefan.Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys **rhestr wirio asesu risg**.

Os nad oes gennych storfa i'w defnyddio ar gyfer storio tân gwyllt yn unig, dylid storio tân gwyllt categori F2 a F3 i ffwrdd o adeilad y siop neu dylid eu cadw naill ai:

- i ffwrdd o'r ardal werthu yn eu pecynnau cludo caeedig mewn cabinet, cynhwysydd sy'n gwrthsefyll tân neu mewn cawell addas

... neu

- mewn cas arddangos addas (mae maint yr ardal gwerthu manwerthu yn pennu'r meintiau uchaf o dân gwyllt y gellir eu storio ar lawr y siop)

**Pa fathau o dân gwyllt sydd wedi'u gwahardd?**

Dim ond tân gwyllt sy'n cydymffurfio â safonau diogelwch, sy'n cario'r marc UKCA ac sydd wedi'u labelu'n gywir yn Saesneg gyda manylion y gwneuthurwr a'r mewnforiwr y gellir eu cyflenwi'n gyfreithiol i ddefnyddwyr. Mae marc UKNI hefyd y mae angen ei ddefnyddio lle mae Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan.

Gellir cyflenwi tân gwyllt sy'n cydymffurfio â safonau diogelwch Ewropeaidd, sydd â'r marc CE ac a oedd yn gyfreithiol i'w cyflenwi yn y DU cyn 1 Ionawr 2021 i ddefnyddwyr tan ddyddiad i'w bennu gan y Llywodraeth.

I gael mwy o wybodaeth am farcio UKCA, UKNI a CE gweler **'Diogelwch cynnyrch: diwydrwydd dyladwy'**.

Rhaid peidio â hollti a gwerthu bocsys tân gwyllt ar wahân.

Rhaid peidio â chyflenwi unrhyw dân gwyllt sy'n fwy na 120 desibel i'r defnyddwyr.

Mae tân gwyllt o'r disgrifiadau canlynol hefyd wedi'u gwahardd

- olwyn awyr
- clecar diferol, clecar diferol fflach neu clecar diferol dwbl
- cracyn neidio
- troellwr ar dir neidio
- troellwr
- roced fach
- tiwb shot sy'n cynhyrchu swn uchel fel ei brif effaith a/neu sydd â diamedr y tu mewn sy'n fwy na 30 mm
- batri sy'n cynnwys bangeri, bangerau fflach neu bangerau dwbl
- cyfuniad (heblaw olwyn) sy'n cynnwys un neu fwy o bangerau, bangerau fflach neu bangerau dwbl

**Beth yw'r cyfyngiadau oedran sy'n berthnasol i werthiant tân gwyllt?**

Mae'r Rheoliadau Erthyglau Pyrotechnig (Diogelwch) 2015 yn gwahardd cyflenwad tân gwyllt categori F4 i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r Rheoliadau'n gwahardd cyflenwi tân gwyllt categori F2 (mannau lle ceir cyfyngu ar ddefnydd awyr agored) a chategori F3 (mannau awyr agored mawr) i unrhyw berson o dan 18 oed. Mae'r Rheoliadau'n gwahardd cyflenwi categori F1 (y defnydd dan do o berygl isel ar gyfer popwyr swn isel ac ati) tân gwyllt i unrhyw berson o dan 16 oed. Gwneir eithriad ar

gyfer craceri Nadolig, na ddylid eu cyflenwi i unrhyw berson o dan 12 oed. Mae capiau ar gyfer gynnau tegan wedi'u heithrio rhag deddfwriaeth tân gwyllt.

**Sylwer:** rhaid i'r labelu ar becynnau o ffyn gwreichion gario'r geiriau:'rhybudd: peidiwch â'i roi i blant o dan bump oed '.

Lle bo tân gwyllt oedolyn (categorïau F2 a F3) yn cael eu cyflenwi neu'n cael eu hamlygu i'w cyflenwi mewn unrhyw fangre, mae'r Rheoliadau Tân 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad gael ei arddangos mewn man amlwg yn y fangre honno, dim llai na 420 mm gan 297 mm (a3), gyda llythrennau dim llai na 16 mm o uchder, gan roi'r wybodaeth ganlynol:

**MAE'N ANGHYFREITHLON I WERTHU TÂN GWYLLT CATEGORI F2 NEU TÂN GWYLLT CATEGORI F3 I UNRHYW UN O DAN 18 OED**

**MAE'N ANGHYFREITHLON I UNRHYW UN O DAN 18 OED FEDDU AR DÂN GWYLLT CATEGORI F2 NEU TÂN GWYLLT CATEGORI F3 MEWN MAN CYHOEDDUS**

### Amddiffynfeydd

Os ydych yn cael eich cyhuddo o drosedd, mae gennych yr amddiffyniad eich bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw o fewn y gyfraith a bod â systemau yn eu lle a fydd yn amddiffyniad'diwydrwydd dyladwy'i honiad bod gwerthiant wedi digwydd i berson o dan yr oedran cyfreithiol gofynnol.

Mae troseddau yn rhai atebolrwydd caeth, sy'n golygu eu bod yn gallu digwydd hyd yn oed pan nad yw perchennog y busnes yn y fangre.

### Cadw o fewn y gyfraith

Er mwyn cadw o fewn y gyfraith ac felly bodloni'r amddiffynfeydd cyfreithiol, dylech gyflwyno polisi dilysu oedran a chael systemau effeithiol i atal gwerthu dan oed. Dylai'r systemau hyn gael eu monitro a'u diweddaru'n rheolaidd fel bo'r angen i nodi a unioni unrhyw broblemau neu wendidau neu i gadw i fyny ag unrhyw ddatblygiadau mewn technoleg.

Mae nodweddion arfer gorau allweddol system effeithiol yn cynnwys y canlynol.

### GWIRIADAU DILYSU OEDRAN

Gofynnwch i bobl ifanc gynhyrchu prawf o'u hoed bob amser. Mae'r Sefydliad Safonau Masnach Siartredig, y Swyddfa Gartref a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn cefnogi **Cynllun Safonau Prawf Oedran Cenedlaethol y DU (PASS),** sy'n cynnwys nifer o ddarparwyr cardiau. Gallwch fod yn hyderus bod cerdyn sy'n cael ei gyhoeddi o dan y cynllun ac sy'n dwyn yr hologram PASS yn brawf derbyniol o oedran.

Gellir hefyd dderbyn pasport neu drwydded yrru cerdyn-llun, ond gwnewch yn siwr bod y cerdyn yn cyfateb i'r person sy'n ei ddefnyddio a bod y dyddiad geni yn dangos eu bod o leiaf yr oedran cyfreithiol isaf. Gellir defnyddio cardiau adnabod milwrol fel prawf oedran ond, fel gyda mathau eraill o adnabod, gwnewch yn siwr fod y llun yn cyfateb i'r person sy'n cyflwyno'r cerdyn a'i fod yn gwirio'r dyddiad geni. Dylech fod

yn ymwybodol y gall cardiau adnabod milwrol gael eu dal gan bobl sydd yn 16 ac 17 oed ac yn aleodau o'r gwasanaethau.

Nid oes rhaid i chi dderbyn pob un o'r ffurfiau uchod o adnabod ac efallai mai'r peth gorau fyddai eithrio unrhyw fath o ddogfen nad yw eich staff yn gyfarwydd â hi.

Efallai y bydd rhai pobl ifanc yn cyflwyno cardiau adnabod ffug felly mae'n ddoeth i wirio golwg a theimlad cerdyn hefyd. Er enghraifft, dylai'r hologram PASS fod yn rhan annatod o gerdyn PASS ac nid yn ychwanegyn.

Os na all yr unigolyn brofi ei fod o leiaf yr oedran cyfreithiol isaf-neu os oes gennych unrhyw amheuaeth-dylid gwrthod y gwerthiant.

Gweler ***Canllawiau Huniaethiad ffug*** y Swyddfa Gartref i gael rhagor o wybodaeth.

**GWEITHREDU HER 21 NEU POLISI HER 25**

Mae hyn yn golygu y gofynnir i'r person, os yw'n ymddangos i fod o dan 21 neu 25 oed, gadarnhau ei fod dros yr oedran cyfreithiol gofynnol drwy ddangos prawf oedran dilys.

**HYFFORDDI STAFF**

Sicrhewch fod eich staff wedi'u hyfforddi'n briodol. Dylen nhw wybod pa gynhyrchion sydd wedi'u cyfyngu i oedran, beth yw'r cyfyngiad oedran a'r camau y mae'n rhaid iddyn nhw eu cymryd os ydyn nhw'n credu bod rhywun o dan yr oedran cyfreithiol isaf yn ceisio prynu. Mae'n bwysig eich bod yn gallu profi bod eich staff wedi deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt o dan y ddeddfwriaeth. Gellir gwneud hyn drwy gadw cofnod o'r hyfforddiant a gofyn i aelodau staff lofnodi i ddweud eu bod wedi'i ddeall. Yna, dylid gwirio'r cofnodion hyn a'u llofnodi'n rheolaidd gan y rheolwyr neu'r perchennog.

**Cadw cofnod gwrthod**

Dylid cofnodi pob gwrthodiad (dyddiad, amser, digwyddiad, disgrifiad o ddarpar brynwr). Bydd cadw log gwrthod yn helpu i ddangos eich bod yn mynd ati i wrthod gwerthu a bod â system effeithiol ar waith. Dylai'r cofnodion gael eu harchwilio gan y rheolwr/perchennog i sicrhau bod pob aelod o staff yn eu defnyddio.

Amgaeir **cofnod gwrthod** enghreifftiol.

Mae gan rai tiliau system gwrthod wedi'i hadeiladu i mewn iddynt. Os ydych yn defnyddio'r systemau yma, dylech sicrhau bod modd adalw'ch gwrthodiad yn ddiweddarach. Dylech hefyd fod yn ymwybodol bod rhai gwrthodiadau'n cael eu gwneud cyn sganio'r cynnyrch.

**CYNLLUN SIOP A CHYNNYRCH**

Nodwch y cynhyrchion dan gyfyngiad oedran (yn cynnwys tân gwyllt categori F1 fel popwyr parti) yn eich siop ac ystyriwch eu symud yn nes at, neu hyd yn oed tu ôl, y cownter.

Ystyriwch arddangos pecynnau ffug fel bod pobl yn gorfod gofyn am y cynhyrchion os ydynt am eu prynu.

**YSGOGIADAU TIL**

Os ydych yn meddu ar system EPoS, efallai y bydd yn bosibl ei defnyddio i atgoffa staff o gyfyngiadau oedran drwy ddull prydlon. Fel arall, gellir defnyddio sticeri ar gyfer rhai codau bar.

**ARWYDDION**

Yn ogystal â'r hysbysiad tân gwyllt sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, efallai yr hoffech arddangos poster yn dangos y terfyn oedran ar gyfer gwerthu tân gwyllt categori F1 a datganiad ynghylch gwrthod gwerthiannau o'r fath. Gall hyn atal darpar brynwyr a gweithredu i atgoffa staff.

**TELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV)**

Gall system teledu cylch cyfyng weithredu fel dull o atal a lleihau nifer yr achosion o werthu i rai dan oed. Bydd hefyd yn eich helpu i fonitro'mannau dall'yn eich siop os nad yw'n bosibl newid y cynllun neu adleoli'r cynhyrchion y tu ôl i'r cownter, neu'n agosach ato.

**Gwerthiannau ar-lein**

Os ydych chi'n gwerthu o bell, fel ar-lein neu drwy gatalog, dylech sefydlu system effeithiol sy'n gallu gwirio oedran darpar brynwyr. Gweler '**Gwerthiannau ar-lein o gynhyrchion â chyfyngiadau oedran'** i gael mwy o wybodaeth.

Mae tân gwyllt yn ffrwydrol a dim ond cludwyr arbenigol sy'n gallu eu cludo i'w gwerthu. Ni fydd negeswyr cyffredin na'r Post Brenhinol yn cario ffrwydron. Os ydych chi am ddechrau gwerthu tân gwyllt gyda system negesydd, cysylltwch â'ch gwasanaeth safonau masnachu lleol.

**Gwybodaeth bellach**

Cynhyrchwyd canllawiau manwl ar Reoliadau Erthyglau Pyrotechnegol (Diogelwch) 2015 gan y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS).

Sylwch fod yna ofynion ychwanegol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw nawr. Efallai y cewch eich dosbarthu fel mewnforiwr i farchnad Prydain Fawr, yn hytrach na bod yn ddosbarthwr yn yr Undeb Ewropeaidd

**Cosbau**

Gall methu â chydymffurfio â chyfreithiau iechyd a diogelwch a safonau masnach arwain at gamau gorfodi a chosbau, a all gynnwys dirwy a/neu garchar. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **'Safonau Masnach: pwerau, gorfodi a chosbau'**.

**Deddfwriaeth allweddol**

**Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974**

**Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987**

**Rheoliadau Tân Gwyllt 2004**

**Rheoliadau Tân Gwyllt (Diwygio) 2004**

**Rheoliadau Ffrwydron 2014**

**Rheoliadau Erthyglau Pyrotechnig (Diogelwch) 2015**

Adolygwyd/Diweddarwyd ddiwethaf: Chwefror 2021

**Yn y diweddariad hwn**

Dim newidiadau mawr

**Noder**

Bwriedir y wybodaeth hon fel canllaw yn unig; dim ond y llysoedd all roi dehongliad awdurdodol o'r gyfraith.

Efallai na fydd dolenni 'deddfwriaeth allweddol' y canllaw ond yn dangos fersiwn wreiddiol y ddeddfwriaeth, er bod dolenni ar wahân i rywfaint o ddeddfwriaeth ddiwygiedig sy'n uniongyrchol gysylltiedig chynnwys y canllawiau. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar ddiwygiadau i ddeddfwriaeth y ar y tab 'Mwy o Adnoddau' ym mhob dolen.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r gwasanaeth defnyddwyr **Cyngor ar Bopeth**, sy'n darparu cyngor cyfrinachol a diduedd ar faterion defnyddwyr yn rhad ac am ddim. Ewch i wefan Cyngor ar Bopeth neu ffoniwch linell gymorth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar 03454 040505.

© 2021 itsa Ltd.

**Atodiad 2**

**Y Côd Tân Gwyllt**

1. Sicrhewch fod y tân gwyllt yn cydymffurfio a safonau a rheoliadau wedi ei gymeradwyo.
2. Peidiwch ag yfed alcohol os ydych chi'n tanio tân gwyllt.
3. Cadwch y tân gwyllt mewn bocs caeedig a dilynwch y cyfarwyddiadau wrth eu defnyddio.
4. Taniwch nhw o hyd braich gan ddefnyddio tapr a sefwch ddigon pell yn ôl.
5. Peidiwch byth a dychwelyd at y tân gwyllt unwaith maent wedi tanio. Hyd yn oed os nad yw'r tân gwyllt wedi mynd ffwrdd, mae'n bosib iddo dal ffrwydro.
6. Peidiwch â byth taflu tân gwyllt na eu rhoi yn eich poced
7. Parchwch eich cymdogion- peidiwch â thanio tân gwyllt yn hwyr yn nos a chofiwch fod rheoliadau i'w dilyn.
8. Byddwch yn ofalus gyda 'sparklers' - peidiwch â byth eu rhoi i blant dan bump oed.
9. Hyd yn oed ar ôl iddynt ddiffodd, mae 'sparklers' yn dal yn boeth felly rhowch nhw mewn bwced o ddŵr ar ôl eu defnyddio.
10. Cadwch unrhyw anifeiliaid anwes yn y tŷ yn ystod y nos.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **Dyddiad** | **22 Ebrill 2021** |
| **Teitl** | **Adnoddau staffio Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor-sicrhau capasiti a gwydnwch nawr ac i'r dyfodol** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth W Griffith** |
| **Awdur** | **Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **Pwrpas** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu dderbyn yr adroddiad a chyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r angen i sicrhau capasiti ac arbenigedd digonol yn y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, er mwyn rhoi gwydnwch ar gyfer gwarchod iechyd a lles cymunedau Gwynedd i'r dyfodol,** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau yn amlinellu 'Gwaith y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y pan demig' (Atodiad 1) a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2021 yr oedd yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Adran yn amlinellu eu pryder o ran ymdopi gyda llwyth gwaith y pan demig pan mae'r galw am wasanaethau arferol yn ail sefydlu. Yn ogystal cynhaliwyd gweithdy ar 10 Medi 2020 gydag Aelodau'r Cabinet, adroddwyd ar y materion oedd wedi codi i gyfarfod o'r Cabinet ar y 15 Medi 2020, lle cytunwyd i ofyn i'r Byrddau neu'r Adrannau roi sylw i'r materion perthnasol. Roedd un o'r materion oedd yn codi ac oedd angen sylw gan yr Adran Amgylchedd ac wedyn y Tîm Arweinyddiaeth, yn cyfeirio at y maes Iechyd Cyhoeddus lle nodwyd:

***"Mae'r cyfnod clo a'r cyfnod a ddilynodd wedi amlygu dyhead mawr gan ein trigolion i sicrhau bod materion iechyd cyhoeddus yn cael sylw gennym. Mae'r galw wedi bod yn sylweddol uwch na'r adnodd sydd gennym i'w ddiwallu.***
***O edrych ar y materion yma drwy lygaid ein trigolion nid yw'r dyhead yn un afresymol. Yn anffodus mae degawd o gyni ariannol wedi golygu nad yw'r gwydnwch adnoddau gennym bellach. Bydd angen ystyried sut i gau'r cylch."***

1.2 Mae'r adroddiad yma yn cynnwys ymateb yr Adran i'r mater uchod ac yn edrych ar y sefyllfa o ran capasiti Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yr Adran, y camau posib i ymateb i'r anghenion byr dymor a thymor canolig yn ogystal â'r materion perthnasol fydd angen ystyriaeth.

**2. CEFNDIR MATERION CAPASITI**

2.1 Mae'r Gwasanaethau Gwarchod wedi gweld toriadau staff sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf gyda nifer y staff wedi gostwng o oddeutu 63 (yn cynnwys adnodd cefnogol) yn ystod 2011/12 i 43 (yn cynnwys adnodd cefnogol) erbyn rŵan, gyda'r toriadau hynny'n cynnwys dileu swydd Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd. Yn ystod y cyfnod yma mae'r Gwasanaethau, sydd yn statudol a rheng flaen ac yn flaenoriaeth 1, wedi symud o 7 Uned oedd gyda 7 Rheolwr i 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gyda 3 Rheolwr ar gyfer y meysydd canlynol:

- Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu (12 o swyddogion yn cynnwys Rheolwr)
- Gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid / Bwyd Anifeiliaid (13 o swyddogion yn cynnwys Rheolwr)
- Gwasanaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch (dyletswyddau'n cynnwys archwiliadau i achosion afiechydon heintus) (14 o swyddogion yn cynnwys Rheolwr)

2.2 Ar hyn o bryd mae 4 swyddog yn cefnogi gwaith y Gwasanaethau uchod.

2.3 Mae'r Gwasanaethau wedi ceisio lliniaru effeithiau'r toriadau drwy gynyddu arbenigedd swyddogion, sydd wedi hwyluso cyfleoedd i weithio ar draws y 3 Gwasanaeth. Cyn y pan demig, er bod heriau o ran gwydnwch a pherfformiad y Gwasanaethau, roedd posib cynnal lefel o wasanaeth elfennol oedd yn dderbyniol i drigolion a busnesau, y mwyafrif o'r amser.

2.4 Yn sgil y pan demig mae dyletswyddau Gwarchod y Cyhoedd yn ymwneud ac afiechydon heintus yn amlwg wedi dod un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac felly mae Gwasanaeth newydd wedi ei greu i gynnal y gwaith perthnasol sef:

- Gwasanaeth Profi , Olrhain a Diogelu- Cofid sy'n cyflogi dros 100 o swyddogion hyd yma.

2.5 Yr hyn sydd wedi dod yn fwy amlwg yn sgil y pan demig yw pa mor bwysig yw ròl y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd o ran gwarchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd o ran cynghori a chefnogi busnesau'r Sir a'r disgwyliad ein bod yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth yn sgil honiadau o dorri'r rheoliadau coronafeirws.

2.6 Mae'r mwyafrif o'r dyletswyddau o ran gorfodi rheoliadau newydd coronafeirws wedi bod yn cael eu gweithredu gan swyddogion Gwarchod y Cyhoedd, ond mae gofyn wedi dod am orfodaeth fwy llym a phresenoldeb gweladwy yn ein trefi. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys ymateb ac archwilio i achosion positif o'r haint yn sgil y gwaith mae'r Gwasanaethau Profi , Olrhain a Diogelu yn ei wneud, yn ogystal â chynghori Adrannau eraill y Cyngor (e.e. Addysg, Oedolion), Prifysgol Bangor a'r Colegau.

2.7 Nodir fod yr holl waith uchod yn ychwanegol i'r gwaith arferol dydd i ddydd ac anodd yw rhoi amserlen ar gyfer pa mor hir fydd yn parhau, a beth yn union yw'r goblygiadau o ran capasiti byr dymor a hir dymor i'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd.

**3. DATRYSIADAU POSIB**

3.1 Yn seiliedig ar dystiolaeth sydd i law credir fod yna 3 cam ar gyfer cyfrannu tuag at diwallu'r diffyg capasiti byr dymor ac er mwyn ceisio cynllunio tuag at gwydnwch hir dymor y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd sef:

**CAM 1 – Y SEFYLLFA GYFREDOL (RWAN – BYR DYMOR)**

3.2 Ers cychwyn y pan demig a cyn sefydlu'r Gwasanaethau Profi, Ol-rhain a Diogelu mae'r 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddeded / Safonau Masnach ac Iechyd a Bwyd Anifeiliaid / Bwyd ac Iechyd a Diogelwch), yn raddol wedi symud i ffwrdd o'r dyletswyddau busnes dydd i ddydd arferol - er mwyn ymateb i faterion ychwanegol sydd yn benodol yn ymwneud a'r rheoliadau coronafeirws.

3.3 Wrth i'r cyfyngiadau lacio ac wrth i'r ysgolion, colegau a'r brifysgol ail agor ac i achosion o'r haint gynyddu yn yr ardal, mae'r rhan fwyaf o'r busnes dydd i ddydd arferol wedi ei gwtogi i faterion brys neu wedi eu hatal yn gyfan gwbl am gyfnod gyda hyn wedi ei gofnodi yn y log penderfyniadau corfforaethol. Erbyn hyn defnyddir y rhan fwyaf o adnodd staff y 3 Gwasanaeth i ddelio'n uniongyrchol gyda'r pan demig, gan weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Profi, Ol-rhain a diogelu gyda'r gwaith yn cael ei rannu'n gyffredinol i:

- Cynghori busnesau megis eiddo trwyddedig, meysydd carafanau, arch marchnadoedd a busnesau eraill o bob math ynglŷn â rheoliadau coronafeirws.
- Yr uchod yn cynnwys gwaith rhagweithiol o gynnal ymweliadau ar ffurf "patrols" i drefi ar y cyd gyda'r heddlu er mwyn cynghori busnesau (anaml y gellir gwneud hyn oherwydd capasiti)
- Gwaith adweithiol o ymchwilio cwynion o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau perthnasol.
- Cynghori Adrannau'r Cyngor, ysgolion, colegau, y brifysgol a chartrefi preswyl.
- Ymdrin ag achosion cysylltiedig o cofid mewn cymunedau, gweithleoedd, sefydliadau gofal a sefydliadau addysgiadol.

3.4 Yr ydym wedi gallu gwella gwydnwch y gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd (dros dro) drwy fanteisio ar arian grant o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru [Hardship Fund rhanbarthol]. Mae'r cyllid a'r grant yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gyflogi 3 (FTE) o Swyddogion Gorfodaeth / Ymgysylltu Gwarchod y Cyhoedd (Cofid 19) yr un i 6 Cyngor y Gogledd am 12-15 mis. Y meddylfryd yma yw hwyluso'r gwaith allan yn y maes gyda mwy o bresenoldeb gweledol allan yn ein trefi a'n pentrefi, yn cynghori busnesau, arsylwi ac yn adrodd yn ôl. Hefyd, oherwydd ei bod yn anodd o brofiad recriwtio swyddogion i'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd oherwydd gofynion cymhwyster a phrofiad ac ati - y syniad yw buasai recriwtio ar lefel is yn haws a gydag anghenion hyfforddiant y gellir eu rhoi mewn lle yn gynt.

3.5 Nodir fod Cyngor Conwy wedi arfarnu'r swydd ar lefel GS4 ac atodir y swydd ddisgrifiad er gwybodaeth. Mae'r 3 swyddog bellach wedi cychwyn arni fel 'Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol Cofid' ac mae'r adborth cychwynnol o'r cymunedau wedi bod yn bositif dros ben.

3.6 Credir mai'r hyn sydd ei angen drwy recriwtio 3 swydd ar lefel yma fel swyddi parhaol gan gydnabod fod hyn yn fuddsoddiad i'r hir dymor ar gyfer gwydnwch y Gwasanaethau. Nodir felly y dylai'r swyddi gael eu gweld fel cyfle datblygol i ddarpar ymgeiswyr gyda'r swyddi dechreuol yn cychwyn ar GS4 - ond gyda hyn yn mynd i fyny at S3 (graddfa cyflog Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) gyda hyfforddiant perthnasol.

3.7 Mae rhain yn swyddi dros dro ar hyn o bryd, mae'r Cabinet wedi ymrwymo cyllideb ychwanegol i'r grant i ymestyn cyfnod y swyddi hyd nes 1af Ebrill 2022

3.8 Rydym hefyd yn derbyn cymorth dros dro gan Swyddogion Iechyd o'r Adran Tai ac Eiddo ond ni all hyn fod yn drefniant parhaol.

**CAM 2 – BYR DYMOR – TYMOR CANOLIG**

3.9 Mae llawer o amser ein swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cael ei dreulio yn delio gydag achosion Cofid cymhleth. Yr ydym ar hyn o bryd yn dylanwadu'n rhanbarthol i geisio gwella arbenigedd y swyddogion olrhain fel bod y gofyn ar ein swyddogion iechyd yr amgylchedd yn llai.

3.10 Yn ogystal, a gan fod y 3 'Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol Cofid' gymaint o lwyddiant mae'r Adran yn edrych am ffynonellau ariannu i gyflogi 3 'Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol Cofid' ychwanegol i'w hyfforddi fel technegwyr neu swyddogion Iechyd yr Amgylchedd neu safonau Masnach y dyfodol.

3.11 Bydd angen adolygu strwythur y 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i gynnwys ystyriaeth hefyd o'r Gwasanaethau Profi, Olrhain a Diogelu yn ystod 2021/22, gan anelu i gael strwythur newydd a gwydn ar gyfer y dyfodol cyn diwedd Mawrth 2022. Credir y dylid rhoi ystyriaeth i'r isod wrth edrych ar strwythur newydd:

1. Gofynion y gwaith sydd yn gysylltiedig a Cofid 19 a'r gwaith busnes dydd i ddydd.
2. Sut y gellir manteisio ar yr arbenigedd sydd wedi ei ddatblygu yn y Gwasanaethau Profi, Olrhain a Diogelu wrth gynllunio ymlaen i ymateb i Cofid 19 ac i greu gwydnwch yng Ngwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd.
3. Adnodd ar lefel uwch rheolaethol i hwyluso trefniadau ar gyfer delio gyda'r ystod o faterion cynhennus / blaenoriaeth uchel (fel materion Gwarchod y Cyhoedd) sydd yn codi yn yr Adran
4. Creu 6 swydd Arweinydd Tîm o fewn y 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd heb gynyddu'r capasiti staff.
5. Yr angen am 3 Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd ychwanegol (1 i bob ardal) – fydd yn gweithio ar draws meysydd gwaith y Gwasanaethau (posib y bydd cyfleoedd yma eto i recriwtio o'r Gwasanaethau Profi, Olrhain a Diogelu).
6. Ystyriaeth i sefydlu 4 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd parhaol ar gyfer y dyfodol.

**5. GRADDFEYDD CYFLOG**

5.1 Yr ydym yn hynod ffodus gyda'r ansawdd swyddogion a thechnegwyr Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach sydd ganom. Wedi dweud hyn mae pryder am ein gallu i gadw gafael ar swyddogion gyda arbenigedd o'r fath sydd hefyd yn rhugl yn yr iaith Gymraeg. Mae 2 prif fygythiad yn ein hwynebu sef:

- Cyflogau Siroedd Cyfagos am swyddi cyffelyb yn uwch, all ddenu ein staff gydag arbenigedd .Gweler tabl 1 isod sy'n cymharu amrediad cyflogau swyddogion iechyd a swyddogion safonau masnach draws cynghorau'r Gogledd.

Tabl 1.

| **Awdurdod** | **Tal swyddog Iechyd yr Amgylchedd** | **Tal swyddog Safonau Masnach** |
|---|---|---|
| GWYNEDD | £32,910 - £34,728 | £32,910 - £34,728 |
| YNYS MÔN | £33,782- £37,890 | £33,782- £37,890 |
| CONWY | £37890 - £40,876 | £33782 - £36922 |
| DINBYCH | £32,234 - £35,745 | £32,234 - £35,745 |
| FFLINT | £35,745 - £38,890 | 32,910 - £34,728 |
| WRECSAM | £33,782 - £40,876 | £33,782 - £40,876 |

- Mae galw am fod am swyddogion gyda'r un arbenigedd yn Sir Fôn i ddelio gyda materion Tollau ac Allforio yn sgil Brexit

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED

6.1 Pwysleisir eto fod recriwtio wedi bod yn heriol o brofiadau diweddar a hyd yn oed os yw popeth yn mynd yn unol â'r amserlen, bydd dal angen hyfforddiant parhaus i swyddogion fydd yn cael eu hapwyntio. Felly rhaid cydnabod nad oes datrysiad sydyn ac mai rhywbeth fydd yn digwydd dros amser fydd hyn, fydd yn helpu gyda'r sefyllfa byr dymor / tymor canol ond yn cyfrannu at y gwydnwch i'r dyfodol - lle bydd angen adolygu strwythur y Gwasanaethau'n 2021/22.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu dderbyn yr adroddiad a chyflwyno unrhyw sylwadau ynglŷn â'r angen i sicrhau capasiti ac arbenigedd digonol yn y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, er mwyn rhoi gwydnwch ar gyfer gwarchod iechyd a lles cymunedau Gwynedd i'r dyfodol.